

2020 Rhif (Cy. )

2020 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd  
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr  
Dros Dro) 2020

The A494 Trunk Road (Llanycil,  
Gwynedd) (Temporary Prohibition  
of Vehicles, Cyclists and  
Pedestrians) Order 2020

*Gwnaed* 27 Awst 2020  
*Yn dod i rym* 2 Medi 2020

*Made* 27 August 2020  
*Coming into force* 2 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A494 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 2 Medi 2020.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Llanycil, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 2 September 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 12:00 ar 2 Medi 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road that extends from a point 50 metres from Class C road to Parc to a point 215 metres south-west of the centre-point of the western exit of Llanycil layby;

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw sy’n ymestyn o bwynt 50 metr o ffyrdd Dosbarth C i Parc hyd at bwynt 215 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt allanfa orllewinol cilfan Llanycil.

### Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

### Cymhwysu

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weiniogion Cymru.

Dyddiedig

27 Awst 2020



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### **GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (LLANYCIL, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, yn Llanycil, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o’r

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 12:00 on the 2 September 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

### Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

27 August 2020



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

### **THE A494 TRUNK ROAD (LLANYCIL, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road at Llanycil, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A494 that extends from a point 50

A494 sy'n ymestyn o bwynt 50 metr o ffyrdd Dosbarth C i Parc hyd at bwynt 215 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt allanfa orllewinol cilfan Llanycil.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd ymuno â'r A4212 yn y Bala hyd at Drawsfynydd, yna dychwelyd tua'r de ar yr A470 i ailymuno â'r A494 yn Nolgellau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, mewn grym o 12:00 o'r gloch ar 2 Medi 2020 hyd 18:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

metres from Class C road to Parc to a point 215 metres south-west of the centre-point of the western exit of Llanycil layby.

The alternative route for vehicles travelling southbound, will be to join the A4212 at Bala to Trawsfynydd, then return southbound on the A470 to re-join the A494 at Dolgellau. Vice versa for northbound traffic.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will be in force from 12:00 hours on 2 September 2020 until 18:00 hours on 28 February 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

